



Adnewyddu democrataidd: Tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol

Crynodeb Gweithredol

1. Cefndir a Nodau

- 1.1 Mae adnewyddu democrataidd yn gysyniad eang sy'n cynnwys dulliau a fyddai'n gwella cynrychiolaeth drwy bleidleisio, yn dirprwyo pwerau o lywodraethau i gymunedau, ac yn adnabod bod angen gwella'r arferion democrataidd presennol. Mae'r cysyniad yn berthnasol i ddiwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru er mwyn cael mwy o bobl i droi allan i bleidleisio, a hefyd yn cynnwys cynigion i ymestyn y bleidlais.
- 1.2 I helpu i oleuo datblygu a gweithredu diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol, mae'r adolygiad hwn yn cyfuno a gwerthuso'r dystiolaeth ryngwladol yn ymwneud ag adnewyddu democrataidd yng nghyswllt:
 - ymgysylltu dinesig a democrataidd;
 - mwy o bobl yn troi allan i bleidleisio (yn enwedig mewn etholiadau lleol); ac
 - ymestyn y bleidlais i rai 16-17 oed a gwladolion tramor.

2. Ymgysylltu Dinesig a Democrataidd

- 2.1 Yn ôl y llenyddiaeth, ystyrir bod ymgysylltu dinesig (yn ymwneud â phobl yn cymryd rhan yn eu cymuned) ac ymgysylltu democrataidd (yn ymwneud ag arferion gwleidyddol, cymdeithasol a chymunedol) yn rhannau allweddol o adnewyddu democrataidd. Mae ymgysylltu dinesig yn aml yn ymwneud â dirprwyo pwerau i'r gymuned ac mae ymgysylltu democrataidd yn cael ei weld fel ffordd o gynyddu cynrychiolaeth deg.
- 2.2 Awgryma'r dystiolaeth fod teimlo'n gadarnhaol am eich cymdogaeth yn bwysig iawn gyda darogan ymddygiad dinesig. Gall hyn gynnwys rhannu cysylltiadau emosiynol yn y gymdogaeth ynghyd ag argraffiadau pobl o'u dylanwad, integreiddio a chwrdd ag anghenion. Er bod gan les hefyd gysylltiad ag ymddygiad dinesig, nid yw'r berthynas yn amlwg unionsyth ac awgryma'r dystiolaeth fod cyfranogiad democrataidd yn cynyddu gyda lles i fyny at bwynt, cyn lleihau pan fydd gan bobl ymdeimlad uwch o les.

2.3 Ymddengys bod y ffactorau canlynol yn dylanwadu ar ymgysylltu dinesig llwyddiannus:

- **Cyd-destun lleol:** mae'n haws adeiladu ar ymgysylltu mewn ardaloedd a nodweddir yn barod gan ymgysylltu cryf a hanesyddol (e.e. ardaloedd diwydiannol gyda hanes o undebau llafur a gweithredu ar y cyd).
- **Arweinyddiaeth:** dangoswyd bod nodweddion cynhenid (e.e. arweinwyr carismatig), arweinyddiaeth barhaus a hyfforddiant mewn arweinyddiaeth ddinesig i gyd yn cynyddu ymgysylltu dinesig.
- **Agweddau gweinyddwyr cyhoeddus:** ymddiried mewn dinasyddion er mwyn gallu ysgogi gwybodaeth leol.
- **Perchnogaeth:** lle mae'r bobl yn berchen ar beth neu'r cyfan o gynllun neu brosiect.
- **Maint y newid:** cyfyngu cyfranogiad dinesig i brosiectau llai neu ardaloedd bach, lle gellir diffinio'r berthynas rhwng y gymuned a gwasanaethau cyhoeddus yn gliriach.

2.4 Mae'r dulliau o ysgogi ymgysylltu dinesig yn cynnwys:

- **Theori procio:** yn cynnwys defnyddio addewidion (e.e. gwneud ymrwymiad cyhoeddus i weithredu dinesig neu i bleidleisio), neu ail-fframio penderfyniadau i ddefnyddio normau cymdeithasol (e.e. rhoi manylion am faint o bobl sydd wedi llofnodi fel bod eraill yn fwy tebygol o lofnodi).
- **Dylunio cynhwysol:** lle gwrandewir ar leisiau dinasyddion a rhoddir tystiolaeth iddynt fod pobl wedi gwrandeio arnynt.
- **Defnyddio technoleg:** er enghraifft defnyddio deisebau ar-lein, polau piniwn ymgynghorol neu gyfryngau cymdeithasol fel dulliau o gyfathrebu rhyngweithiol.

3. Troi Allan i Bleidleisio

3.1 Mae adnewyddu democrataidd yn cynnwys dulliau o wella cynrychiolaeth drwy bleidleisio, ac un ffordd o wneud hyn yw drwy gael mwy o bobl i droi allan i bleidleisio. Yn ôl y llenyddiaeth, mae'r ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol canlynol yn dylanwadu ar bobl yn pleidleisio:

- **Oed:** mae cofrestru a throi allan i bleidleisio isaf ymhlith pobl ifanc, er bod yr oedrannau iau'n cyfranogi mwy mewn mathau eraill o ymddygiad dinesig fel gwirfoddoli.
- **Addysg:** mae pobl sydd wedi eu haddysgu i lefel gradd yn fwy tebygol o bleidleisio na rhai heb radd.
- **Tarddiad ethnig:** yn y DU, mae pobl BME yn llai tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r nifer sy'n troi allan i bleidleisio hefyd yn is ymhlith y rhan fwyaf o grwpiau BME o'i gymharu â'r boblogaeth ar gyfartaledd ac yn enwedig ymhlith pobl BME ifanc.

3.2 Dangosodd adolygiad o'r llenyddiaeth, i geisio egluro patrwm troi allan i bleidleisio, dair thema:

- **Argraff o bwysigrwydd a dealltwriaeth o etholiadau lleol:** awgryma'r dystiolaeth fod pobl gydag ymdeimlad cryf o ddyletswydd ddinesig yn fwy tebygol o bleidleisio mewn etholiadau lleol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymchwil hyd yma sydd wedi ceisio egluro pam fod gan rai pobl ymdeimlad cryfach o ddyletswydd ddinesig nag eraill. Dangosodd arolygon hefyd y gallai diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth wleidyddol fod yn effeithio ar argraff pobl o ba mor bwysig yw etholiadau lleol yng Nghymru.
- **Dylanwadau cynhenid:** dangosodd ddata arolwg fod diffyg amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr etholedig efallai'n cael effaith negyddol ar argraffiadau pleidleiswyr o'u dylanwad.

- **Dylanwadau anghynhenid:** gall ymddygiad pobl eraill hefyd effeithio ar bleidleisio, gyda phobl yn llawer mwy tebygol o bleidleisio pan fydd pleidleisiwr arall ar yr aelwyd. Dangosodd arbrofion pleidleisio fod technegau procio i atgoffa pobl o'u dyletswydd ddinesig hefyd yn effeithiol.

- 3.3 Mae cofrestru i bleidleisio isaf ymhlith pobl ifanc, pobl BME, pobl sydd newydd symud tŷ a phobl sy'n byw mewn tai rhent. Er bod ymgyrchoedd i gael pobl i gofrestru i bleidleisio'n gallu bod yn effeithiol i wella ymwybyddiaeth o gofrestru i bleidleisio, nid yw'n glir pa effaith y maen nhw'n ei gael ar gynyddu cofrestru.
- 3.4 Gall problemau hygyrchedd effeithio ar faint sy'n troi allan i bleidleisio, a gellid datrys y rhain gyda dulliau pleidleisio mwy hyblyg a chyfleus. Er bod y dystiolaeth ar dulliau pleidleisio eraill yn dal i gael ei chasglu, awgryma'r ymchwil hyd yma fod rhoi'r opsiwn i bleidleisio ar-lein yn cael fawr ddim effaith ar gael mwy i bleidleisio, er y gallai'r dull apelio at rai grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli ac efallai helpu i atal mwy o ddirywiad yn y nifer sy'n pleidleisio.

4. Ymestyn y Bleidlais

- 4.1 Mae ymestyn y bleidlais i grwpiau eraill mewn cymdeithas fel bod eu barn yn cael ei chynrychioli'n ddemocrataidd yn agwedd arall a ystyriwyd yn y llenyddiaeth.
- 4.2 O ran ymestyn y bleidlais i rai 16-17 oed, mae pedair thema'n codi'n glir yn y llenyddiaeth. Dylid nodi mai dadleuon ar sail egwyddor yw'r rhain yn aml er bod dadansoddi empirig wedi'i ymgorffori lle'r oedd hynny'n berthnasol:
- **'Mae'n gwneud synnwyr':** Mae pobl ifanc 16-17 oed yn cyfrannu at gymdeithas a dylai fod ganddynt lais felly mewn sut y mae'r wlad yn cael ei rhedeg.
 - **'Ddim yn barod':** Nid oes gan bobl iau'r profiad, yr addysg na'r aeddfedrwydd i wneud penderfyniadau pleidleisio gwybodus. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth o reidrwydd yn cefnogi'r farn yma a dangosodd ddata arolwg o Gymru er bod ymatebwyr iau'n llai tebygol o wybod bod y GIG wedi'i ddatganoli, maen nhw o leiaf yr un mor debygol â phobl hŷn o wybod pwy sy'n gyfrifol am addysg a phlisma yng Nghymru.
 - **'Dim diddordeb':** Mae nifer y rhai 18-24 oed sy'n troi allan i bleidleisio'n isel felly byddai rhywun yn disgwyl yr un peth gyda rhai 16-17 oed. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o wledydd eraill a gyflwynodd bleidleisio i rai 16 oed yn gymysg ac nid yw o reidrwydd yn cefnogi'r farn hon.
 - **'Bydd mwy'n troi allan i bleidleisio yn y tymor hir':** Er y dystiolaeth brin ar hyn, ystyrir bod profiadau cynnar o bleidleisio'n creu arfer ac felly'n arwain at droi allan i bleidleisio gydol oes.
- 4.3 Mae'r dystiolaeth yn gymysg o ran effaith rhoi'r bleidlais i wladolion tramor. Er yn aml iawn bod llai o wladolion tramor yn troi allan i bleidleisio mewn etholiadau, ymddengys bod hyn yn rhannol oherwydd demograffeg gwladolion tramor o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol (er enghraifft, maen nhw'n iau a gyda chyflawniad addysgol is). Fodd bynnag, mae hefyd ffactorau penodol yn ymwneud â bod yn ymfudwr a allai arwain at fod yn llai tebygol o bleidleisio. Awgryma'r dystiolaeth fod y ffactorau hyn yn ymwneud â chael budd yn eich cymuned, sy'n cyfateb i'r canfyddiad yn y llenyddiaeth ehangach fod teimlo'n gadarnhaol am eich cymdogaeth yn cynyddu cyfranogiad dinesig a democrataidd.

5. Sylwadau i Gloi

5.1 Nodir tair ffactor allweddol ar draws y dystiolaeth yn ymwneud ag adnewyddu democrataidd:

- **Mae ymgysylltu'n anwastad ac mae angen dulliau wedi'u teilwrio os am lwyddo i gynnwys grwpiau sydd wedi dieithrio'n wleidyddol.** Mae cynrychiolaeth deg yn anghydnaws ag ymgysylltu anwastad, yn enwedig lle mae rhagfarn systematig o ran pwysy'n ymgysylltu yn y broses. Mae ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol yn darogan ymgysylltu democrataidd a dinesig, a gall sut y mae'r llywodraeth yn dewis ymgysylltu â phobl waethygu'r gwahaniaethau hyn ymhellach. I oresgyn hyn, gallai llywodraethau ystyried teilwrio eu dulliau ymgysylltu fel bo'r grwpiau sydd wedi ymddieithrio fwyaf yn gallu ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer ymgysylltu mewn ymddygiad democrataidd.
- **Mae gan addysg y potensial i wella dealltwriaeth pobl o ddemocratiaeth leol ac effeithio ar lefelau ymgysylltu.** Gallai effeithiau eilradd fod yn ffactor gyda'r nifer is sy'n pleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol. Gallai addysg am rôl llywodraeth leol a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae cynghorwyr lleol yn ei wneud hwyluso ac ysgogi pobl i ymgysylltu mwy mewn democratiaeth leol. Dangoswyd hefyd fod addysgu pobl am faterion gwleidyddol yn creu diddordeb a gwella dealltwriaeth gan gynyddu ymwybyddiaeth wleidyddol a gwneud pobl yn fwy abl i wneud penderfyniadau gwybodus, gan felly gryfhau democratiaeth.
- **Mae argraffiadau pobl o'u dylanwad yn darogan pa mor debygol ydynt o ymgysylltu'n ddemocrataidd.** Gellir gweld hyn yn yr ystyr ddinesig (lle mae prosiectau fel rhai sy'n ymwneud â chyllidebu cyfranogol yn hwyluso ymgysylltu drwy greu teimlad o berchnogaeth) ac yn yr ystyr etholiadol (lle gall systemau pleidleisio fel y cyntaf i'r felin arwain at ddiffyg diddordeb mewn pleidleisio oherwydd yr argraff o ddiffyg effaith). Gall yr iaith a ddefnyddir i gyfathrebu gyda dinasyddion hefyd fod yn bwerus i gyfleu'r dylanwad y gallai pobl ei gael pe byddent yn cyfranogi.

5.2 Er y dystiolaeth gref mewn nifer o feysydd, mae hefyd rhai agweddau ar y llenyddiaeth lle mae bylchau neu dystiolaeth anghyson yn gwneud argymhellion yn anodd. Felly, efallai y bydd angen mwy o ymchwiliad yn y meysydd canlynol:

- Byddai'n fuddiol pe bai'r **canfyddiadau'n cael eu hailadrodd mewn cyd-destun perthnasol.** Er enghraifft, ymchwilio i'r ffactorau sy'n ysgogi ymgysylltu democrataidd ymhlith rhai 16-17 oed yn benodol (yn hytrach na dibynnu ar y canfyddiadau cyffredinol ar gyfer rhai 18-24 oed) ar lefel llywodraeth leol (yn hytrach na chenedlaethol).
- Byddai **mwy o ymchwiliad gyda samplau cynrychiadol** (e.e. drwy arolygon cadarn eu dyluniad) yn rhoi tystiolaeth fwy dibynadwy o farn y boblogaeth ehangach am ddiwygio etholiadol a democrataidd, gan helpu i adeiladu ar y dystiolaeth o ymgynghori sy'n dibynnu ar samplau hunan-ddewisol.
- Byddai'n fuddiol **deall y cysylltiad** rhwng y diddordeb sylweddol sydd gan bobl ifanc ond y lefel gymharol isel o droi allan i bleidleisio. Yn yr ystyr ehangach, gallai hyn ymestyn i ddeall sut i harneisio ymgysylltu dinesig yn llwyddiannus a'i droi'n ymgysylltu neu weithredu democrataidd.
- Awduron: Merisha Hunt a Sophie Nickson (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Hunt, M. a Nickson, S. (2019). Adnewyddu democrataidd: Tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 13/2019.>

Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/democratic-renewal-evidence-synthesis-support-local-government-electoral-reform/?lang=cy>

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai o eiddo'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda:

Merisha Hunt

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 628345

E-bost: merisha.hunt003@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-776-1